Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, Tachwedd 14eg, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Y Dirprwy Faer Edward Thomas, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Fran Murphy, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Roy Davies, Cyng Christopher Parish
Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Dim.

Cof 189/ Tachwedd / 07 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/16452 Anheddle newydd (materion wrth gefn i TG/04636) wrth ymyl Frondeg, Heol Caerfyrddin.
Sylw : Dim gwrthwynebiadau.

E/17569 Newid defnydd : swyddfa yn feddygfa ddeintyddol yn 15, Heol Newydd.
Sylw : Darllenwyd llythyr o wrthwynebiad gan Dr Bill Brady. Penderfynwyd i beidio â gwrthwynebu ac y dylid cefnogi'r cais oherwydd yr angen dirfawr am Ddeintydd gan y GIG yn y Dref.

E/17677 Blaen newydd i siop yn 131, Heol Rhosmaen
Sylw : Dim gwrthwynebiadau

Cof 190/ Tachwedd/ 07 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Caniatawyd y cais cynllunio canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC.

E/16258, E/16259 Gosod rheilen llaw newydd i'r grisiau presennol a gosod Cyddwysyddion awyriant aer newydd yn Toast, 4, Stryd y Brenin.

Cof 191 / Tachwedd/ 07 Ti thynnwyd unrhyw Gynllunio yn ôl.

Cof 192 / Tachwedd / 07 Cludiant a Phriffyrdd

1. CSC – Holiadur Cynnal a Chadw Phriffyrdd. Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins i lanw'r holiadur hwn.
2. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at CSC yn gofyn beth oedd y sefyllfa parthed gosod mesurau arafu traffig wrth Adeiladau'r Banc. Mae hyn wedi'i gytuno gan CSC ac mae Aelodau yn dymuno gwybod pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud.
3. Penderfynwyd y dylid codi'r mater ynghylch parcio anghyfreithlon ym Maes Mwyn yn ystod Materion yr Heddlu yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

Cof 193 / Tachwedd / 07 Adroddiad ar Lwybrau Troed.

1. Adroddodd y Swyddog Technegol ei fod wedi cwrdd â Mr a Mrs Pugh o Heol Caerfyrddin parthed cynnal a chadw'r berth sy'n ffinio â'u heiddo. Hysbysodd Mr a Mrs Pugh y byddai'r mater yn cael ei anfon ymlaen i CSC.
2. Dywedodd Mr Davies fod llwybr troed Crug Manor wedi'i gau wrth ymyl y tŷ. Argymhellodd anfon llythyr at Caroline Ferguson CSC mewn perthynas â'r mater.
3. Dywedodd Mr Davies bod diogelwch pobl sy'n defnyddio'r Bont Siglo yn bryder gan nad oes unrhyw dystiolaeth fod gwaith cynnal a chadw wedi'i wneud gan CSC. Mae gan Mr Davies dystiolaeth ffotograffig i'w gyflwyno i Ieuan Jones y Cynghorydd Sir.

Cof 194/ Tachwedd / 07 Gohebiaeth

1. Cynhelir Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol ar 15.11.07 yn Neuadd y Sir. Nodwyd.
2. Seminar Cynllunio CSC Chwefror 2008. Argymhellwyd bod Cadeirydd Cynllunio Cyng Fran Murphy a'r Is gadeirydd Cynllunio, Cyng Charlotte yn mynychu'r seminar. Bydd y Cyngor yn talu £20 fesul cynrychiolydd.
3. Cynllun Gweithredu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Nodwyd
4. Rhybudd o gyfarfod Davies Richards ar 13.12.07 am 4pm yn Neuadd y Sir.

Cof 195/ Tachwedd / 07 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Gofynnodd y Cynghorydd Charlotte Leadbeater os oedd modd llungopïo adroddiadau a dogfennau a ddosbarthwyd yn y cyfarfod diwethaf gan Davies Richards a'u dosbarthu gan y Clerc er mwyn i Aelodau fedru darllen a pharatoi eu sylwadau cyn y Cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn ar Dachwedd 28ain, 2007

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05pm